
Dyfodol rhifau ffôn

Datganiad ar rifau daearyddol

Fersiwn anghyfrinachol – wedi'i olygu ar gyfer cyhoeddi [X]

DATGANIAD:

Dyddiad cyhoeddi: 11 Mawrth 2022

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg

1

1. Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn nodi ein penderfyniadau i ddiwygio'r rheolau sy'n llywodraethu'r defnydd o rifau ffôn yn y DU, er mwyn sicrhau eu bod yn cymryd y newidiadau mawrion sy'n digwydd yn rhwydweithiau'r wlad i ystyriaeth, ac yn parhau i hyrwyddo hyder defnyddwyr mewn gwasanaethau ffôn.

Mae galwadau ffôn yn wasanaeth hanfodol i lawer o bobl a busnesau. Fodd bynnag, mae'r ffordd yr ydym yn defnyddio ffonau'n newid. Mae cyfathrebiadau symudol ac ar-lein yn cynyddu, ac mae'r defnydd o linellau tir yn dirywio'n gyffredinol. Mae'r rhwydwaith llinellau ffôn tir yn y DU - y rhwydwaith cyfnewidfeydd ffôn cyhoeddus (PSTN) - yn dod tuag at ddiwedd ei fywyd ac yn cael ei ddisodli'n raddol. Dros y blynyddoedd i ddod, caiff galwadau llinell dir eu cludo'n gynyddol dros rwydweithiau Protocol Rhyngryd (IP) mwy modern, gyda gwasanaethau ffôn llinell dir yn cael eu cyflwyno'n gynyddol dros gysylltiadau band eang.

Yn erbyn y cefndir hwn, rydym wedi bod yn adolygu ein llyfr rheolau ar gyfer rhifau ffôn yn y DU - sef y Cynllun Rhifau Ffôn Cenedlaethol (y Cynllun Rhifau). Amlinellwyd ein hymagwedd arfaethedig at yr adolygiad hwn yn ein Hymgyngghoriad Cyntaf yn 2019.¹ Yn ein Hail Ymgynghoriad yn 2021,² cyflwynwyd cynigion yn ymwneud â rhifau daearyddol, ac yn y ddogfen hon rydym yn nodi ac yn esbonio ein penderfyniadau.

Yr hyn rydym wedi'i benderfynu - yn gryno

Cadw codau ffôn ardal ar gyfer llinellau tir

Rydym yn cadw'r rheolau presennol ar rifau daearyddol sy'n dyrannu digidau cyntaf rhif ffôn llinell dir i ardal (y cod ardal) ac yn darparu arwyddocâd o ran lleoliad. Er nad yw rhwydweithiau IP yn gofyn am godau ardal i gyfeirio galwadau yn yr un modd â rhwydweithiau etifeddol, a bod adnabyddiaeth o'r cyswllt daearyddol rhwng rhif ffôn a lleoliad yn gostwng, mae rhai pobl a busnesau'n dal i'w werthfawrogi. Felly, rydym wedi penderfynu peidio â dileu'r cysylltiad hwn.

Mae'r rheolau hyn yn caniatáu defnydd y tu allan i'r ardal o rifau daearyddol sydd, yn ein barn ni, yn rhoi hyblygrwydd pwysig i bobl a busnesau wrth ddefnyddio rhifau.

¹ Ofcom, 2019. [Dyfodol rhifau ffôn](#), ymgynghoriad cyntaf (yr Ymgynghoriad Cyntaf).

² Ofcom, 2021. [Dyfodol rhifau ffôn](#), ail ymgynghoriad (yr Ail Ymgynghoriad).

Dileu'r rhwymedigaeth ar ddarparwyr telathrebu i ddarparu deialu lleol

Mae deialu lleol yn galluogi i rywun wneud galwad o un linell dir i linell dir arall yn yr un ardal heb ddeialu'r cod ardal. Rydym yn dileu'r gofyniad i ddarparu deialu lleol ar wasanaethau ffôn llinell dir gan i ni ystyried bod gwerth y cyfleuster hwn i ddefnyddwyr ffôn wedi gostwng ac am ei fod yn fwy cymhleth i'w ddarparu ar rwydweithiau IP. Rydym yn rhagweld y bydd darparwyr telathrebu'n debygol o ddileu'r cyfleuster hwn wrth iddynt symud cwsmeriaid llinell dir i wasanaethau llais IP newydd.

Rydym wedi nodi ein disgwyliadau o ran y mesurau y dylai darparwyr telathrebu eu cymryd wrth ddileu deialu lleol i liniaru unrhyw risg o ddryswch neu niwed i'w cwsmeriaid.

Y camau nesaf

Rydym wedi cyhoeddi fersiwn diwygiedig o'r Cynllun Rhifau er mwyn gweithredu ein penderfyniad i ddileu'r rhwymedigaeth i ddarparu deialu lleol. Byddwn yn monitro cynlluniau darparwyr telathrebu ar gyfer dileu deialu lleol a rhoi gwybod i'w cwsmeriaid am y newid hwn.

Roedd ein Hail Ymgynghoriad hefyd yn cynnwys cynigion i ddiwygio'r Cynllun Rhifau i wahardd rhannu refeniw â phartïon sy'n galw. Rydym yn ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd ac yn cywain gwybodaeth ychwanegol i gyfeirio ein camau nesaf.

Byddwn yn parhau â'n hadolygiad o'r Cynllun Rhifau ac yn y cam nesaf, byddwn yn edrych ar rôl rhifau 084 a 087 annaearyddol yn y dyfodol.